Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Y.G.G. Blaendulais
Pen y Banc
Blaendulais
Castell Nedd
SA10 9AA

04/12/2024

Annwyl Kathryn Penhale

**Ymweliad Interim:** Tachwedd 2024

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gymraeg Blaendulais yn ddiweddar i ystyried sut mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael â dau o'r argymhellion o'u harolygiad craidd ym mis Rhagfyr 2022. Isod, ceir crynodeb o gynnydd yn erbyn yr argymhellion hynny.

Yn ystod yr ymweliad, cafodd y tîm gyfle i:

- Ymweld â dosbarthiadau
- Siarad â disgyblion
- Cyfarfod gydag athrawon ac arweinwyr
- Craffu ar waith disgyblion
- Craffu ar ddogfennaeth

Mae arweinwyr a staff yn yr ysgol wedi gweithio'n ddiwyd i fynd i'r afael â'r argymhellion hyn. Maent yn cydnabod bod agweddau y gallent wella ymhellach.

**Ffocws yr ymweliad**

**Darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymhwyso'u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm**

- Mae medrau rhifedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn. At ei gilydd, maent yn datblygu ystod gynyddol o fedrau rhif yn gyson mewn sesiynau a gweithgareddau dysgu mathemateg ar hyd y flwyddyn.
- Wrth i ddisgyblion symud drwy'r flwyddyn, mae'r rhan fwyaf yn datblygu amrediad buddiol o fedrau mathemategol yn gadarn, er enghraifft wrth fesur amrywiaeth o ddeunyddiau ar gyfer arbrofion gwyddoniaeth a thechnoleg.
- Mae athrawon yn cynllunio'n briodol i ddatblygu medrau rhifedd y disgyblion. O ganlyniad, mae medrau rhifedd sylfaenol y disgyblion yn datblygu'n llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob tro yn cynllunio medrau

Estyn, Llys Angor/Anchor Court, Heol Keen/Keen Road, Caerdydd/Cardiff, CF24 5JW
Ffôn/Telephone 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru • enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.llyw.cymru • www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

rhifedd y disgyblion yn ddigon bwriadus i alluogi disgyblion i ddatblygu a chymhwyso eu medrau rhifedd yn gyson ac yn adeiladol.
- Yn ddiweddar, mae staff wedi cydweithio'n effeithiol i addasu'r themâu hanner tymhorol i ddarparu mwy o gyfleodd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, ar ddiwedd thema benodol mae staff wedi clustnodi prosiect entrepreneuriaid i ddisgyblion ar draws yr ysgol i ddatblygu a chymhwyso eu medrau a'u hymgysylltiad gyda'r gymuned leol.

**Cryfhau prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella**

- Mae'r arweinwyr wedi datblygu amserlen ddefnyddiol ar gyfer monitro a gwerthuso gwaith yr ysgol. Mae'n cynnwys trawstoriad pwrpasol o weithgareddau sydd yn galluogi staff i lunio darlun cywir o ddeilliannau disgyblion ac i werthuso safon y ddarpariaeth.
- Mae'r staff yn casglu ystod eang o dystiolaeth i gefnogi eu canfyddiadau monitro fel trafodaethau gyda staff, teithiau dysgu, craffu ar lyfrau a gwrando ar ddysgwyr. Maent yn defnyddio canlyniadau y profion cenedlaethol yn synhwyrol er mwyn adnabod agweddau sydd angen cryfhau yn nealltwriaeth disgyblion.
- Maent yn defnyddio canfyddiadau holiaduron rhieni yn bwrpasol. Er enghraifft, wrth fonitro y ddarpariaeth ADY, danfonwyd holiadur at rieni disgyblion perthnasol. Adnabuwyd yr angen am fwy o gefnogaeth i'r teuluoedd a trefnwyd gweithdai ar gyfer deall strategaethau rheoli emosiynau.
- Ar y cyfan mae arweinwyr yn adnabod cryfderau ac agweddau sydd angen eu datblygu yn gywir. Maent yn edrych yn fanwl ar effaith y ddarpariaeth ar gyflawniad disgyblion gan nodi targedau ar gyfer monitro pellach. Golyga hyn fod ganddynt ddealltwriaeth da o'r hyn sy'n gweithio'n llwyddiannus a'r hyn sydd angen ei addasu ar gyfer gwella'r ddarpariaeth a chyflawniad a lles disgyblion.
- Mae arweinwyr yn clustnodi blaenoriaethau addas ar gyfer eu cynnwys yng nghynlluniau gwella ysgol gyfan. Er hyn, nid yw'r camau gweithredu bob amser yn ddigon clir er mwyn galluogi'r ysgol i fesur eu cynnydd yn erbyn eu blaenoriaethau yn ddigon effeithiol.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol/UCD a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6712202

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol